

**Rhifyn 60**

**Ble hoffech chi fod?**

# Beth ar y ddaear... ?

Beth ar y ddaear?

Edrychwch ar y sioe sleidiau yma. Mae'n cynnwys gweithgareddau sy'n digwydd adeg y Nadolig mewn gwahanol leoedd o gwmpas y byd.

Pa fath o ddigwyddiadau ydyn nhw? Beth sy'n digwydd?

Ceisiwch ateb y cwestiwn ac yna ewch i'r adran **Atebion**.

|                       |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
|-----------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p><b>Sleid 1</b></p> |                                                                                                                                                                                                                                      |
| <p><b>Sleid 2</b></p> |  <p><small>Sleid 2 - Llyn: <a href="https://www.cakezone.com/blog/10-awesome-christmas-traditions-around-world/xmas4">https://www.cakezone.com/blog/10-awesome-christmas-traditions-around-world/xmas4</a> - © Cakezone</small></p> |
| <p><b>Sleid 3</b></p> |  <p><small>Sleid 3 - Llyn: <a href="#">Chester Raft Race 2008</a> - <a href="#">Cen2s2s</a> © Wikimedia Commons o dan drwydded Creative Commons Attribution- Share Alike 3.0 Unported</small></p>                                  |
| <p><b>Sleid 4</b></p> |                                                                                                                                                                                                                                    |

**Sleid 5**



**Sleid 6**



*Sleid 6 - Llun: [Mari Lwyd](#) - R,fiend © Wikimedia Commons o dan drwydded  
[Creative Commons Attribution-Share Alike 3.0 Unported](#)*

# Diflas! (1)

Edrychwch ar y llun yma'n ofalus ac yna ewch i'r adran **Tasgau**.



*\*Cymerwyd y llun yma yn 2012.*

# Noson y Radisys

## Noson y Radisys

← → ↻ | [www.samardaith.cymru](http://www.samardaith.cymru) |

### Noson y Radisys

#### 23 Rhagfyr

Wel, dw i wedi cyrraedd Oaxaca, Meccico ac wedi gweld pethau anhygoel!



Miloedd o radisys mawr - miloedd o radisys enfawr, anferth - a'r rheiny wedi eu cerfio'n hardd. Roedd rhai llai hefyd, wrth gwrs! Ond beth oedd yn drawiadol oedd y lliwiau porffor, pinc, coch a gwyn ymhob man.

Well i mi egluro! Ar 23 Rhagfyr bob blwyddyn, yn Oaxaca, mae cystadleuaeth arbennig – cystadleuaeth cerfio radisys.

Mae'r llysiau hyn i gyd yn cael eu tyfu ar ddarn o dir arbennig. Yna:

- Rhagfyr 19: mae pobl yn dod i'r darnau o dir i dynnu'r radisys maen nhw eisiau
- Rhagfyr 20: maen nhw'n glanhau'r radisys
- Rhagfyr 21-22: maen nhw'n cerfio'r radisys (dydd a nos – weithiau!)
- Rhagfyr 23: maen nhw'n rhoi'r radisys yn y gystadleuaeth – a chystadlu

Mae'r gwaith yn anhygoel! Mae'n bosib gweld cymeriadau o stori'r Geni, cymeriadau o ddiwylliant yr ardal, adar ac anifeiliaid a phethau hardd eraill. Dyma rai enghreifftiau i chi:



Llun: [Rabanos2014 016](#) - [AlejandroLinaresGarcia](#) © Wikimedia Commons o dan drwydded [Creative Commons Attribution-Share Alike 4.0 International](#)





Llun: [Rabanos2014 009](#) - [AlejandroLinaresGarcia](#) © Wikimedia Commons o dan drwydded [Creative Commons Attribution-Share Alike 4.0 International](#)





Llun: [Rabanos2014 009](#) - [AlejandroLinaresGarcia](#) © Wikimedia Commons o dan drwydded [Creative Commons Attribution-Share Alike 4.0 International](#)

Anhygoel! Os ydych chi eisiau gweld enghreifftiau eraill, ewch

i: <https://edition.cnn.com/travel/gallery/noche-de-rabanos-oaxaca-mexico/index.html>

*Cynhelir y digwyddiad hwn ym Mecsico. Mae Mecsico wedi ei lliwio'n binc ar y map.*





Geirfa

| Cymraeg        | Disgrifiad                                                           | Saesneg          |
|----------------|----------------------------------------------------------------------|------------------|
| radis, radisys | planhigyn, planhigion gyda gwreiddiau lliw coch mae'n bosib eu bwyta | radish, radishes |
| trawiadol      | arbennig iawn                                                        | striking         |
| diwylliant     | hanes, llenyddiaeth, celf, chwedlau ac ati                           | culture          |

# Lliwgar! Cyffrous! Anhygoel!



*Dewch i ddathlu'r Nadolig yn*

*Nos Sadwrn, 22 Rhagfyr, 2018*

*yn*

*San Fernando, Y Philipinau*




- Dewch i edmygu'r dyfeisiadau enfawr!*
- Dewch i fwynhau'r awyrgylch trydanol!*
- Dewch i deimlo'r wefr wrth i'r awyr ddu droi'n dapestri o liwiau byw - diolch i'r cannoedd o fylbiau trydan ar bob dyfais!*
- Dewch i weld y sioe ysblennydd wrth i'r goleuadau ddawnsio i rythm y gerddoriaeth!*
- Dewch i gadw cwmni i'r miloedd o bobl fydd yn dod i wyllo'r gystadleuaeth.*

*Pwy fydd yn ennill?*

*Y dyfeisiadau mwyaf lliwgar, mwyaf cyffrous, mwyaf anhygoel - wrth gwrs!*

*Dewch i fwynhau noson ysblennydd... ffantastig... anhygoel... ryfeddol... fendigedig*

*Gwelwn ni chi yno!*




Cafwyd y lluniau a ddefnyddir yn y poster o'r ffynonellau hyn:

Llun 1: [Giant Lantern Festival 2013 winner: Barangay Telebastagan](#) - [Caryl Joan Estrosas](#) © [Flickr](#) o dan drwydded Attribution 2.0 Generic (CC BY 2.0)

Llun 2: [Giant Lantern Festival 2013: Barangay Sta Lucia](#) - [Caryl Joan Estrosas](#) © [Flickr](#) o dan drwydded Attribution 2.0 Generic (CC BY 2.0)



*Cynhelir y digwyddiad hwn yn Y Philipinau. Mae'r Philipinau wedi eu lliwio'n binc ar y map.*



## Geirfa

| Cymraeg             | Disgrifiad                                       | Saesneg               |
|---------------------|--------------------------------------------------|-----------------------|
| gwefr               | teimlad cyffrous                                 | thrill                |
| dyfais, dyfeisiadau | rhywbeth sydd wedi cael ei ddyfeisio neu ei greu | invention, inventions |
| awyrgylch           | naws                                             | atmosphere            |
| trydanol            | fel trydan                                       | electrifying          |

# Diflas! (2)

Edrychwch ar y llun yma'n ofalus ac yna, ewch i'r adran **Tasgau**.



# Rholio yn yr eira neu doddi yn yr haul?

| RHOLWYR EIRA                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |                                 |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------|
| <b>Anfonwyd:</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Dydd Iau, 20 Rhagfyr 2018 03:15 |
| <b>Oddi wrth:</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | cadi@cymru.gwe                  |
| <b>At:</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    | gweiddi.org                     |
| <p>Annwyl Gweiddi,</p> <p>Doeddwn i ddim yn gallu credu fy llygaid pan agorais i'r llenni un diwrnod ym mis Rhagfyr y llynedd (2017)!</p> <p>Roedd cesig eira enfawr yn gorwedd ar hyd y cae gyferbyn â'r tŷ – ac roedd rhai llai yn gorwedd ar hyd bonet y car ar y stryd. Pwy oedd wedi'u gwneud nhw? Oedd fy rhieni wedi bod allan yn chwarae yn yr eira pan oedd pawb arall yn cysgu? Go brin! Dydyn nhw ddim yn bobl anturus iawn (yn wahanol i fi a fy mrawd!!)</p> <p>Ar ôl edrych ar y we, gwelais mai "rholeri eira" oedden nhw (mae llun yn yr atodiad). Dyna'r tro cyntaf erioed i mi weld peli eira mor fawr – ac mor hardd. Roedd rhaid i mi fynd allan i dynnu eu lluniau (gweler yr atodiad), ac yn wir, roedd rhaid i mi fynd i gerdded ar hyd y caeau i weld oedd mwy ohonyn nhw – ac oedd, mi roedd llawer ohonyn nhw ar hyd yr ardal. Am gyffrous!</p> <p>Ond, a bod yn onest, doedd hi ddim yn syndod gweld cesig eira y llynedd oherwydd roedd y tywydd mor eithafol on'd oedd! Ar y dechrau, roeddwn i wrth fy modd i weld yr eira'n cyrraedd (a'r ysgol yn cau!). Roeddwn i wrth fy modd yn cerdded drwy'r eira trwm i dŷ Nain i wneud yn siŵr ei bod hi'n cadw'n gynnes yn yr oerfel! Ond roedd yr eira y llynedd yn ormod on'd oedd? Ar ôl cael wythnos ar ôl wythnos o oerfel, rhew ac eira, roeddwn i'n dyheu am weld y glaw unwaith eto! O leiaf gallwch chi chwarae hoci yn y glaw!</p> <p>Tybed sut bydd hi eleni?</p> <p>Nadolig Llawen!</p> <p>Cadi</p> <div>   </div> |                                 |
| <p>Llun: <a href="#">Snow roller / Rouleau de neige</a> - <a href="#">Mylène</a> © Flickr o dan drwydded <a href="#">Attribution-NonCommercial-NoDerivs 2.0 Generic</a></p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |                                 |

Rhagfyr 2017

Cyfarchion o Sydney!

Sut dach chi ... a sut mae'r tywydd? Oer? Braf?

Wel, mae hi'n grasboeth yma ac mae pethau rhyfedd iawn wedi bod yn digwydd yn y tywydd eithafol – ffyrdd yn toddi yng ngwres yr haul, ystlumod yn syrthio'n farw o'r coed ... tanau gwyllt. Ar y strydoedd, mae elusennau'n rhoi dŵr i bobl sychedig achos y gwres. Roedd hi mor boeth â 47.3°C mewn un rhan o Sydney yn ddiweddar – anhygoel!!! Roeddwn i'n toddi!

Ddydd Nadolig, y cynllun oedd syrffio a nofio yn y bore ac yna barbeciw i ginio, ond roedd hi'n rhy boeth i fi ac roeddwn i'n teimlo'n eitha sâl! Doeddwn i ddim am fentro allan o oerfel y tŷ (lle mae system awyru) i losgi yn yr haul!


Dw i'n gallu'ch dychmygu chi rŵan yn eich cotiau a'ch sgarffiau yn mynd am dro i'r traeth. Mwynhewch! Hoffwn i fod yno gyda chi.

Caru chi!

Deio

J. Jones  
98 Ffordd y Dyffryn  
Dinbych  
Sir Ddinbych  
Cymru  
LL67 9PK  
Prydain / U.K.

*Mae Deio yn Sydney, Awstralia. Mae Awstralia wedi ei lliwio'n binc ar y map.*





## Geirfa

| Cymraeg      | Disgrifiad                                                     | Saesneg                                                   |
|--------------|----------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------|
| cesig eirau  | lluosog <b>caseg eira</b> ; peli eira enfawr                   | huge snowball usually formed by rolling it along the snow |
| go brin!     | ddim yn debyg!                                                 | hardly!                                                   |
| dyheu am     | awchu am, eisiau rhywbeth o ddifri                             | (to) yearn for                                            |
| ystlumod     | lluosog <b>ystlum</b> ; anifeiliaid sy'n hedfan yn ystod y nos | bats                                                      |
| system awyru | system i oeri'r aer                                            | air conditioning system                                   |

# Melikam Gena!



Os ydych chi eisiau dathlu'r Nadolig ar Ragfyr 25, does dim pwynt i chi fynd i Ethiopia!

Pam?

Oherwydd maen nhw'n dathlu'r Nadolig ar Ionawr 7 – a byddwch chi'n teimlo'n unig iawn yn gwisgo'ch het Siôn Corn ac yn bwyta'ch cacen Nadolig ar eich pen eich hun.

Yn wir, mae gan bobl Ethiopia eu ffordd arbennig o ddathlu'r Nadolig ...

## Cyn y Nadolig

Mae rhai pobl yn ymptydio am 43 diwrnod cyn y Nadolig, gan ddechrau ar Dachwedd 25. Yn ystod y cyfnod hwn, maen nhw'n bwyta un pryd fegan y dydd. Mae pobl eraill yn ymptydio'r diwrnod cyn y Nadolig yn unig.

## Dros y Nadolig (Ionawr 7)

Fel rhan o'r traddodiad, mae pobl yn gwisgo Netela – darn gwyn tenau o gotwm gyda streipiau llachar ar hyd yr ymylon, er bod rhai pobl yn y dinasoedd erbyn heddiw yn gwisgo dillad y gorllewin.



Yn y dillad arbennig hyn, maen nhw'n mynd i offeren hir iawn yn yr eglwys yn oriau mân y bore. Cyn mynd i mewn i sefyll yn yr offeren, mae pawb yn cael kannwyll arbennig ac maen nhw'n cerdded o gwmpas yr eglwys dair gwaith.

I ginio, maen nhw'n bwyta "wat", stiwl sbeislyd tew o gig a llysiau, ac weithiau wyau. Maen nhw'n defnyddio "injera", sef darn o fara fflat, fel plât.

Fel arfer, mae'r dynion a'r bechgyn yn chwarae "ganna", gêm debyg iawn i hoci, gan ddefnyddio ffon grom a phêl o bren.

### **Ar ôl y Nadolig**

Ddeuddeg diwrnod ar ôl y Nadolig, Ionawr 19, mae dathliad arall o'r enw "Timkat" sy'n para am dri diwrnod. Mae'r bobl yn gorymdeithio i'r eglwys i gyfeiliant cerddoriaeth frodorol, rythmig, gan wisgo dillad arbennig, ac mae'r offeiriaid yn cario ymbaréls mawr.



Yn ystod y dathlu, mae rhai dynion yn cymryd rhan mewn camp arbennig o'r enw "yeferas guks". Maen nhw'n reidio ceffylau ac maen nhw'n taflu gwaywffyn at ei gilydd. (Peidiwch chi â thrïo hyn, da chi!)

Yn wahanol i ni, nid yw pobl yn rhoi anrhegion i'w gilydd fel arfer. Mae'r prif bwyslais ar fynd i'r offeren, gwleda a chwaraeon.

"Melikam Gena" i chi!

## Geirfa

| Cymraeg      | Disgrifiad                                               | Saesneg                 |
|--------------|----------------------------------------------------------|-------------------------|
| ymprydio     | peidio â bwyta                                           | (to) fast               |
| offeren      | gwasanaeth yn yr eglwys Gatholig                         | mass                    |
| crom         | ffurf fenywaidd <b>crwm</b> ; bwaog, cam                 | crooked                 |
| i gyfeiliant | i sŵn y gerddoriaeth                                     | to the accompaniment of |
| brodorol     | perthyn i'r wlad                                         | native                  |
| gwaywffyn    | ffurf luosog <b>gwaywffon</b> ; arfau hir â blaen miniog | spears                  |
| da chi       | er mwyn popeth                                           | for goodness sake       |



# Diflas! (3)

Edrychwch ar y llun yn ofalus ac yna ewch i'r adran **Tasgau**.



Llun: [Solid waste in the dumping site \(6898425366\)](#) - [SuSanA Secretariat](#) © Wikimedia Commons o dan drwydded [Creative Commons Attribution 2.0 Generic](#)

# Bethlehem

Pan fyddwch chi'n meddwl am Fethlehem adeg geni'r Iesu, pa fath o ddarlun sydd yn eich meddwl chi?

Dinas dawl gyda phawb yn cysgu'n sownd?

Noson dywyll, gydag un seren lachar yn disgleirio yn yr awyr?

Mair a Joseff yn dod i'r ddinas ar gefn asyn ac yn gweld goleuni'r adeiladau'n disgleirio yn y tywyllwch?

Rhywbeth fel hyn efallai ...?



Ond mae Bethlehem heddiw yn wahanol iawn i'r darlun yna. Edrychwch ar y lluniau hyn. Beth maen nhw'n cyfleu?



Mae un gân Nadolig yn dangos bod gwahaniaeth mawr rhwng Bethlehem adeg geni'r Iesu a Bethlehem heddiw.


Ewch i: <http://www.brigyn.com/english/lyrics-haleliwia.html> i ddarllen y gerdd. Mae rhai geiriau yn yr eirfa ar waelod y sgrin i'ch helpu chi.

Gwrandewch ar y gân yn cael ei chanu yma:  
<https://www.youtube.com/watch?v=E0qzBlns9DM>

Yna, ewch i'r adran **Tasgau**.

*Mae'r gân yn sôn am Balesteina. Mae Palesteina wedi'i lliwio'n binc ar y map.*





Geirfa

| Cymraeg | Disgrifiad                                                   | Saesneg      |
|---------|--------------------------------------------------------------|--------------|
| dwrn    | llaw wedi ei chau'n dynn                                     | fist         |
| dur     | metel wedi ei wneud o haearn a charbon                       | steel        |
| pyrth   | lluosog <b>porth</b> ; mynedfeydd                            | gateways     |
| gwyrth  | digwyddiad anhygoel, goruwchnaturiol wedi ei drefnu gan Dduw | miracle      |
| o gylch | o gwmpas                                                     | around       |
| craith  | marc ar y croen ar ôl anaf                                   | scar         |
| chwalu  | torri'n deilchion                                            | (to) shatter |
| hoel    | ôl                                                           | trace        |